Rydym yn Gweithio, yn Gofalu ac yn Gweddïo

Corff Llywodraethu

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes

Heol Yr Eglwys, Y Wig

Bro Morgannwg. CF71 7QE

Rhoddir rhybudd yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r corff llywodraethu, wedi ymgynghori â phobl yn ôl y gofyn, yn cynnig gwneud newid wedi'i reoleiddio i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes, Heol yr Eglwys, Y Wig, Bro Morgannwg CF71 7QE trwy ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11. Cynigir sefydlu uned feithrin er mwyn darparu 24 o leoedd meithrin sy'n gyfwerth â rhai rhan amser ar gyfer bechgyn a merched. Bydd hyn yn galluogi hyd at 24 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) i dderbyn addysg feithrin ran amser yn yr ysgol.

Cynhelir yr ysgol gan Fro Morgannwg ac Esgobaeth Llandaf.

Ymgymerodd y corff llywodraethu â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion ac ymatebion y cynigydd ar gael yma www.wickmarcross.co.uk

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2019.

Bydd yr ysgol yn parhau fel ysgol wirfoddol a gynorthwyir a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Corff llywodraethu'r ysgol fydd yr awdurdod derbyn. Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i ddosbarth Derbyn yr ysgol yn 4/5 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig i agor y Feithrinfa ei roi ar waith fydd 22. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin 3 i 4 oed yn yr ysgol yn ystod blwyddyn ysgol gyntaf y cynnig i agor y Feithrinfa fydd 24 o ddisgyblion rhan amser. Nid yw trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion)

Capasiti yr ysgol fydd 154 o leoedd. Bydd yr ysgol yn darparu 24 o lefydd meithrin a 154 o lefydd ysgol gynradd.

Mae trefniadau teithio Dysgwyr Cymru Gyfan yn caniatáu cymhwyster i dderbyn cludiant i'r ysgol os yw disgybl cynradd o oedran ysgol statudol yn byw fwy na dwy filltir i'w ysgol agosaf neu ei ysgol ddalgylch ddynodedig.

Nid yw trefniadau cludiant ysgol, cymhwysedd na hygyrchedd wedi eu heffeithio gan y cynnig hwn.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn Dydd Llun 2 Gorffennaf 2018 gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mark Harris, cadeirydd y llywodraethwyr, yng nghyfeiriad yr ysgol uchod neu drwy e-bost at wickmarcrossps@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd y corff llywodraethu yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u harsylwadau arnynt, o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnodwyd
4 Mehefin 2018

Mark Harris, ar ran y corff llywodraethu

NODYN EGLURHAOL – nad yw'n rhan o'r hysbysiad statudol.

Cynigir bod ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes yn cael ei hymestyn o 4-11 i 3-11 drwy ymgorffori meithrinfa 24 o leoedd meithrin sydd gyfwerth â rhan amser (PTE).

Caiff uned feithrin ar wahân ei sefydlu o fewn yr ysgol.

Bydd meithrinfa yn galluogi hyd at 24 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan iddynt ddechrau mewn dosbarth derbyn) i dderbyn addysg feithrin rhan amser yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu 24 o lefydd meithrin a 22 o lefydd ysgol cynradd. Caiff y meini prawf derbyn ar gyfer y feithrinfa a'r ysgol gynradd eu cyflwyno i rieni gan yr ysgol a byddant wedi eu cynnwys hefyd yn llyfryn Bro Morgannwg Canllaw Rhieni i Dderbyn yn Ysgolion y Fro.

Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu lle i blentyn mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol. Ni fydd gan blant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn, boed yn byw o fewn neu y tu allan i'r dalgylch. Bydd gofyn i rieni gwblhau ffurflen gais ar gyfer eu dewis ysgol gynradd. Lle bydd mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, caiff lleoedd eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Os bydd y corff llywodraethu yn derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig ar adeg cam yr Hysbysiad Statudol, caiff y penderfyniad terfynol ar bennu'r cynnig ei wneud gan yr awdurdod lleol.

Llofnod:
Ceri Thomas
Pennaeth
Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Yr Wig a Marcroes

Llofnod:
Mark Harris
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Yr Wig a Marcroes